CYB A5 cards 29/7/06 8:14 pm Page 15

7 Llwybr Darganfod Gardd y Goedwig
Forest Garden Discovery Trail

O Faes Parcio Pandy - hawdd
¾m/1.2km
45 munud
dringo 70ft/20m

O'r maes parcio i'r anabl yn unig
¼m/350m
20 mins
graddiant mwyaf 10%

Dechrau

O Faes Parcio Pandy
neu mae mynediad i'r anabl o'r maes parcio i'r anabl yn unig

Uchafbwynt

Cewch weld coed o bob rhan o'r byd a dysgu ffeithiau diddorol amdanynt.



From Pandy Car Park - easy
¾m/1.2km
45 mins
70ft/20m climb

From disabled only Car Park
¼m/350m
20 mins
max gradient 10%

Start

From Pandy Car Park
or Disabled Access from disabled only car park

Highlights

Experience trees from around the world and discover fascinating facts about them.

CYB A5 cards 29/7/06 8:14 pm Page 16

7 Llwybr Darganfod Gardd y Goedwig - Y daith
Forest Garden Discovery Trail - The route

O Faes Parcio Pandy:

Dilynwch yr arwyddion gwyrdd hyd at y bwrdd croeso ger y bont dros Afon Babi (yma, yn ôl traddodiad lleol, y cipiodd y tylwyth teg faban ffermwr lleol a gadael un o'u babanod eu hunain yn ei le). Ewch dros y bont, a chewch weld ein casgliad o goed o bob rhan o'r byd. Mae cyfres o lwybrau ffurfiol ac anffurfiol yn groesymgroes drwy'r ardd, rhai ohonynt yn serth ac anwastad, ond nid oes yma unrhyw risiau na chamfeydd. Dilynwch ein pyst ffeithiau-am-goed diddorol os dymunwch.

Gallwch ymuno â'r Llwybr Copr drwy ddilyn yr arwyddion gwyrdd i lawr y ffordd ac yna dilyn arwyddion coch y Llwybr Copr.

Mynediad pob gallu o'r maes parcio i'r anabl yn unig:

Mae gennym faes parcio i'r anabl yn unig wrth i chi fynd yn ôl at y bont (gweler y bwrdd croeso). Gellir parcio yma ar gyfer y llwybr pob gallu. Mae'r llwybr yn croesi'r bont ac yn dilyn yr afon drwy ran isaf yr ardd goed hyd at wylfan sy'n edrych dros y rhaeadr. Yma, gallwch glywed stori Pont Llam-yr-ewig drwy ddefnyddio ein blwch weindio arbennig. Mae'r llwybr hwn yn addas ar gyfer yr abl a'r anabl ac mae ar raddiant hawdd (10% / 1 mewn 10 ar y mwyaf), ac mae'n addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.

From Pandy Car Park:

Follow the green waymarkers down to the welcome board by the bridge over the Afon Babi – *river of the baby* (where local folklore says a fairy baby was exchanged for a local farmers child). Cross the bridge to discover our tree collection from all round the world. The garden is criss-crossed with a series of formal and informal tracks, some steep and uneven, but there are no steps or stiles. Follow our special fascinating-tree-facts posts for a suggested route.

You can join the Copper trail by following the green markers down the road and then picking up the copper trail's red markers.

All ability access from the disabled only car park:

We have a disabled only car park back towards the bridge (see welcome board) for using with the all-ability trail. The trail crosses the bridge and follows the river through the lower part of the forest garden to a viewpoint overlooking the waterfall. Here you can hear the story of Pont-llam-yr-ewig – Bridge of the Stag's Leap, using our special wind-up box. The trail is built to all ability standards with an easy gradient (max 10%) and is suitable for wheelchair users.